

Cyflwynir yr adroddiad hwn i gydymffurfio gyda safonau 152, 158 a 164 o Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd i'r Tribiwnlys Priso gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y 6 Tachwedd 2017. Mae'n cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2019 tan 31 Mawrth 2020.

Cyhoeddi gwreiddiol ac amrywio dilynol yr Hysbysiad Cydymffurfio

1. Cyflwynwyd Hysbysiad Cydymffurfio gwreiddiol y Tribiwnlys ar 30 Medi 2016 gyda dyddiad gweithredol ar gyfer yr holl safonau a gynhwyswyd ynddo (ac eithrio rhifau 99 i 103, 122 a 145) sef 30 Mawrth 2017. Cafodd y dyddiad gweithredol ar gyfer y safonau wedi'u heithrio a nodwyd ei bennu fel 30 Medi 2017.
2. Yn dilyn heriau gan y Tribiwnlys, amrywiodd y Comisiynydd yr Hysbysiad Cydymffurfio gwreiddiol trwy ddiddymu safonau 64 a 67 yn gyfan gwbl a diddymu'r cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol yn erbyn safonau 65 a 65A. Gwnaeth y Comisiynydd ei phenderfyniad ar y 6 Tachwedd 2017. Mae copi o'r Hysbysiad Cydymffurfio terfynol i'w weld ar wefan y Tribiwnlys.

Sut mae'r Tribiwnlys wedi cydymffurfio gyda'r gwahanol safonau sy'n berthnasol iddo

3. Mae'r safonau isod yn berthnasol i'r Tribiwnlys:
 - Safonau cyflenwi gwasanaethau
 - Safonau llunio polisi
 - Safonau gweithredu
 - Safonau cadw cofnodion

Safonau cyflenwi gwasanaethau

4. Mae'r Tribiwnlys yn parhau yn ei hymdrechion i gydymffurfio â'r holl safonau darparu gwasanaeth a osodir arno. Mae'r holl nodweddion cyswllt â chwsmeriaid a gofnodwyd mewn adroddiadau blaenorol sy'n hwyluso'r defnydd o'r Iaith Gymraeg ac yn hyrwyddo ei defnydd gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn aros yn eu lle. Mae ymateb iaith lafar llawn ac uniongyrchol ar y pwynt cyswllt cyntaf yn parhau i fod yn broblem oherwydd y nifer fach o siaradwyr Cymraeg rhugl mewn gweithlu bach, lle mae trosiant staff yn brin. Yn anffodus, gadawodd un o'n siaradwyr rhugl ar ddiwedd y flwyddyn adrodd hon am swydd arall. Daeth yr ymarfer recriwtio, lle roeddem yn gobeithio dod o hyd i o leiaf un yn ei le, i stop yn sydyn oherwydd y cloi cenedlaethol COVID-19. Roedd yr ymarfer recriwtio wedi cychwyn ym mis Ionawr gyda'r prif fwrriad i gynyddu sgiliau ein gweithlu mewn meysydd eraill a gyda'r bwriad eilaidd i gynyddu ein cryfder yn y Gymraeg. Fodd bynnag, oherwydd na chwblhaodd ddiwedd mis Mawrth, daethom â'r cyfnod i ben gyda llai o allu Cymraeg. Bydd yr ymarfer recriwtio (a oedd yn y cam cyfweld) yn ailgychwyn yn ddiweddarach yn 2020-21. Rydym yn rhagweld pan fydd yn cwblhau y bydd gennym fwy o bobl ar gael i ddelio â chysylltiadau ac ymholiadau Cymraeg

Safonau llunio polisi

5. Fel yr adroddwyd y llynedd, Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys (corff llywodraethu TPC) sy'n gyfrifol am lunio polisiâu. Mae'r Cyngor Llywodraethu yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad pob polisi newydd a diwygio'r rhai cyfredol ystyried effaith y polisiâu eu hunain ar ddefnydd y Gymraeg a'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Ychwanegwyd atodiad sy'n nodi ystyriaethau'r Gymraeg y mae'r Cyngor Llywodraethu wedi eu hystyried at yr holl bolisiâu a ddatblygwyd neu a adolygwyd eleni, fel ei bod yn glir y cyflawnwyd asesiad o'r effaith ar y Gymraeg. Fodd bynnag, ni thrafodwyd unrhyw bolisiâu newydd na diwygiedig gan y Cyngor Llywodraethu eleni.

Safonau gweithredu

6. Mae dewisiadau iaith staff ac aelodau tribiwnlys yn cael eu cofnodi. Mae dau aelod o staff (allan o 15) a 12 aelod tribiwnlys (allan o 93) wedi dewis y Gymraeg fel eu dewis ar gyfer yr holl safonau cymwys. Ni phenodwyd unrhyw aelod newydd o staff yn ystod 2019/20; ond gadawodd un o'r ddau a oedd wedi dewis Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn. Ni chafodd unrhyw aelodau newydd eu recriwtio d eleni, ond gwelwyd rhai aelodau yn ymddeol - gan gynnwys rhai â dewis Cymraeg. Dechreuodd proses recriwtio gwbl ddwyieithog ar gyfer aelodau newydd o staff ym mis Ionawr. Sefydlwyd mewnlwch pwrpasol ar gyfer ceisiadau Saesneg a Chymraeg a oedd yn cydnabod yn awtomatig eu bod yn derbyn ceisiadau yn yr iaith a ddewiswyd. Roedd hefyd yn cynghori ymgeiswyr mewn ffordd debyg pe baent yn cyflwyno eu cais allan o amser.
7. Fel y cofnodwyd y llynedd, mae meddalwedd gwirio sillafu a gwirio gramadeg Cymraeg wedi ei ymgorffori i weithfan pob aelod o staff. Mae hefyd wedi'i gynnwys ar liniaduron, gan gynnwys gliniaduron ychwanegol a roddwyd ar ddechrau'r cyfyngiadau symud yn y DU oherwydd COVID-19. Felly mae holl staff TPC wedi parhau i gael mynediad i'r cyfleusterau hyn wrth weithio gartref.
8. Mae asesiad sgiliau Cymraeg ein staff trwy gydol y flwyddyn hon fel a ganlyn. Nodwyd dau fel rhai cwbl hyfedr, un fel lefel uchel, un fel un â sgiliau sgwrsio da, chwech fel rhai sylfaenol (uwch), un fel sylfaenol (is), a phedwar fel isel iawn neu ddim. Dangosir y ffordd y mae'r asesiadau hyn yn mapio i Lefelau Sgiliau Cymraeg TPC yn y tabl Cofnodion Gofynnol yn Atodiad A isod. Mae Atodiad B yn dangos y Lefelau Sgiliau iaith Gymraeg eu hunain. Roedd y siart Lefelau Sgiliau iaith yn rhan o'r pecyn cais am swydd a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, a gofynnwyd i ymgeiswyr roi asesiad personol o'u galluoedd yn seiliedig ar hyn, wrth wneud eu cais. Gwnaethpwyd hyn fel y gallai ymgeiswyr, a oedd yn cwrdd â'r holl ofynion hanfodol, gael eu didoli yn ôl gallu Cymraeg.
9. Mae'r tribiwnlys yn cefnogi pob cais am hyfforddiant iaith Gymraeg ac yn annog staff i ymgymryd ag ef. Mae sawl aelod o staff wedi dilyn hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond wedi cyrraedd pwyntiau lle maent wedi penderfynu rhoi'r gorau i hyfforddiant iaith ffurfiol, o leiaf am y tro. Mae un aelod o staff wedi parhau i ymgymryd â hyfforddiant allanol ac wedi cael amser i ffwrdd o'r gweithle ar gyfer hyn. Llwyddodd y ddau siaradwr Cymraeg cwbl hyddysg i gwblhau tystysgrif ôl-raddedig mewn Cyfieithu Proffesiynol yn ystod y flwyddyn. Talodd y tribiwnlys holl ffioedd y cwrs a chaniatáu amser i ffwrdd i fynychu sesiynau hyfforddi ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ymgwymerodd y ddau aelod staff hyn â thasgau cyfieithu mewnol llai yn

ystod y flwyddyn, a thalwyd lwfans misol bychan iddynt. Mae'r amser a dreulir ar dasgau cyfieithu wedi'i gofnodi. Mae dogfennau swmpus yn dal i gael eu hanfon at gyfieithwyr allanol yn ôl yr angen.

10. Mae'r tribiwnlys yn parhau i fod â fformatau dwyieithog safonol ar gyfer llofnodion e-bost a negeseuon allan o'r swyddfa lle mae'r Gymraeg yn debygol o gael ei ddarllen gyntaf. Mae llofnodion e-bost yn nodi bod yr anfonwr yn siaradwr neu'n ddysgwr Cymraeg, fel sy'n berthnasol. Anogir siaradwyr Cymraeg i wisgo bathodynau a / neu laniards i ddangos eu bod yn gallu sgwrsio yn yr iaith.
11. Mae arwyddion dwyieithog yn parhau i gael eu harddangos yn ein swyddfeydd, gan gynnwys arwyddion dros dro pryd bynnag y cânt eu codi. Fe'u gosodir allan fel bod y Gymraeg yn debygol o gael ei ddarllen gyntaf.

Safonau cadw cofnodion

12. Mae'r Tribiwnlys wedi cadw'r cofnodion y mae'n ofynnol iddo eu cadw dan y safonau sy'n berthnasol iddo. Dangosir y cofnodion am y flwyddyn yn Atodiad A.

SAFONAU'R GYMRAEG – COFNODION GOFYNNOL

Rhif y Safon	Gofyniad	Canlyniad diwedd y flwyddyn												
140	Nifer y cwynion yn ymwneud â chydymffurfio â'r safonau	Dim												
141	A gafodd copiâu o gwynion ysgrifenedig ynghylch cydymffurfio â'r safonau eu cadw?	Nid oedd unrhyw gwynion ysgrifenedig, ac felly nid oes unrhyw ddogfennau wedi'u cadw.												
142	A gafodd copiâu o gwynion ysgrifenedig eraill yn ymwneud â'r Gymraeg eu cadw?	Nid oedd unrhyw gwynion ysgrifenedig eraill, ac felly nid oes unrhyw ddogfennau wedi'u cadw.												
143	A oes cofnod o'r camau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfio gyda'r safonau llunio polisi?	Oes. Cedwir cofnod mewn atodiad ar ddiwedd pob polisi newydd neu ddiwygiedig.												
144	Nifer y staff â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn (ac, os cofnodir hynny, y lefel sgiliau perthnasol)	<table> <tr> <td>1 cwbl hyfedr</td> <td><i>TPC lefel 5</i></td> </tr> <tr> <td>1 lefel uchel</td> <td><i>TPC lefel 4</i></td> </tr> <tr> <td>1 sgyrsiol da</td> <td><i>TPC lefel 3</i></td> </tr> <tr> <td>7 sylfaenol</td> <td><i>TPC lefel 2</i></td> </tr> <tr> <td>4 isel iawn neu ddim</td> <td><i>TPC lefel 1</i></td> </tr> </table>	1 cwbl hyfedr	<i>TPC lefel 5</i>	1 lefel uchel	<i>TPC lefel 4</i>	1 sgyrsiol da	<i>TPC lefel 3</i>	7 sylfaenol	<i>TPC lefel 2</i>	4 isel iawn neu ddim	<i>TPC lefel 1</i>		
1 cwbl hyfedr	<i>TPC lefel 5</i>													
1 lefel uchel	<i>TPC lefel 4</i>													
1 sgyrsiol da	<i>TPC lefel 3</i>													
7 sylfaenol	<i>TPC lefel 2</i>													
4 isel iawn neu ddim	<i>TPC lefel 1</i>													
145	Nifer (a chanran) y staff sydd wedi mynychu hyfforddiant o ran y Gymraeg yn y meysydd isod: <ul style="list-style-type: none"> • Recriwtio a chyfweld • Rheoli perfformiad • Cwynion a gweithdrefnau disgyblu • Cynefino • Ymdrin â'r cyhoedd • Iechyd a diogelwch 	<table> <tr> <td>Recriwtio a chyfweld</td> <td>Dim (0%)</td> </tr> <tr> <td>Rheoli perfformiad</td> <td>Dim (0%)</td> </tr> <tr> <td>Cwynion a gweithdrefnau disgyblu</td> <td>Dim (0%)</td> </tr> <tr> <td>Cynefino</td> <td>Dim (0%)</td> </tr> <tr> <td>Ymdrin â'r cyhoedd</td> <td>Dim (0%)</td> </tr> <tr> <td>Iechyd a diogelwch</td> <td>Dim (0%)</td> </tr> </table>	Recriwtio a chyfweld	Dim (0%)	Rheoli perfformiad	Dim (0%)	Cwynion a gweithdrefnau disgyblu	Dim (0%)	Cynefino	Dim (0%)	Ymdrin â'r cyhoedd	Dim (0%)	Iechyd a diogelwch	Dim (0%)
Recriwtio a chyfweld	Dim (0%)													
Rheoli perfformiad	Dim (0%)													
Cwynion a gweithdrefnau disgyblu	Dim (0%)													
Cynefino	Dim (0%)													
Ymdrin â'r cyhoedd	Dim (0%)													
Iechyd a diogelwch	Dim (0%)													
147	Nifer y swyddi a hysbysebwyd eleni? A gafodd copi o asesiad y sgiliau Cymraeg gofynnol ar gyfer y swydd(i) ei gadw?	Tair swydd union yr un fath Do												
148	Nifer y swyddi a hysbysebwyd wedi eu categorio fel: <ul style="list-style-type: none"> • Sgiliau Cymraeg yn hanfodol • Angen dysgu sgiliau Cymraeg • Sgiliau Cymraeg yn ddymunol • Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol 	<table> <tr> <td>0</td> <td>Sgiliau Cymraeg yn hanfodol</td> </tr> <tr> <td>3*</td> <td>Angen dysgu sgiliau Cymraeg</td> </tr> <tr> <td>0</td> <td>Sgiliau Cymraeg yn ddymunol</td> </tr> <tr> <td>0</td> <td>Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol</td> </tr> </table> <p>[* Y gofyniad oedd bod Lefel 3 yn ddymunol, ond os oedd gallu'r ymgeisydd yn is na hyn, roedd angen dysgu sgiliau. Gweler y darn o'r Pecyn Cais yn Atodiad C.]</p>	0	Sgiliau Cymraeg yn hanfodol	3*	Angen dysgu sgiliau Cymraeg	0	Sgiliau Cymraeg yn ddymunol	0	Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol				
0	Sgiliau Cymraeg yn hanfodol													
3*	Angen dysgu sgiliau Cymraeg													
0	Sgiliau Cymraeg yn ddymunol													
0	Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol													

Lefelau Sgiliau Cymraeg PTC

Maes iaith	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5
Gwranddo / Siarad:	Gallu dweud enwau'n gywir (yn cynnwys enwau cyntaf, cyfenwau ac enwau lleoedd). Gallu cyfarch cwsmeriaid yn ddwyieithog ar y ffôn, cynnig dewis iaith yn y dderbynfa ac agor a chloi sgwrs yn ddwyieithog.	Gallu deall byrdwn sgwrs Gymraeg ar gyflymder cymedrol ac yn gallu gwneud cyfraniad achlysurol. Gallu deall a throsglwyddo negeseuon syml ynghylch tasgau gwaith arferol a chyfleu gwybodaeth sylfaenol.	Gallu deall a chymryd rhan mewn sgysiau Cymraeg. Gallu cynnig cyngor mewn ymateb i ymholiadau ond efallai y bydd yn gorfod defnyddio termau Saesneg yn achlysurol.	Gallu cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd mewnol ac allanol ynghylch materion yn gysylltiedig â gwaith. Gallu deall gwahanol dafodiaith a thôn yr iaith; yn medru dadlau o blaid neu yn erbyn syniad neu safiad; gallu cadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau.	Gallu cyfrannu'n rhugl a hyderus ar bob agwedd o waith yr unigolyn, a rhoi cyngor o natur dechnegol lle bo angen. Gallu cyfieithu'n effeithiol i eraill.
Darllen:	Gallu deall arwyddion a labeli byr yn y gweithle. Gallu deall testun byr iawn ar bynciau'n gysylltiedig â gwaith a chyfarwyddiadau syml mewn iaith glir.	Gallu deall swm arwyddocaol o gynnwys dogfennau byr yn gysylltiedig â gwaith o gael amser digonol a rhaglenni cymorth iaith at ei ddefnydd.	Gallu deall y rhan fwyaf o ohebiaeth a deunydd sy'n gysylltiedig â gwaith. Gallai fod angen defnyddio rhaglenni cymorth iaith ar gyfer geirfa dechnegol neu eirfa lefel uchel.	Gallu deall gohebiaeth ac adroddiadau ffurfiol.	Gallu deall adroddiadau, dogfennau ac erthyglau'n gysylltiedig â gwaith arferol, yn cynnwys rhai o natur ieithyddol gymhleth.
Ysgrifennu:	Gallu ysgrifennu enwau lleoedd, enwau personol, teitlau swyddi, enwau cysylltiadau allanol, busnesau ac awdurdodau. Gallu cynnwys ymadroddion Cymraeg syml mewn negeseuon i gydweithwyr.	Gallu ysgrifennu negeseuon byrion a negeseuon e-bost i gydweithwyr.	Gallu paratoi ymateb i'r rhan fwyaf o ohebiaeth ac ysgrifennu adroddiadau at ddefnydd mewnol, gyda pheth defnydd o raglenni cymorth iaith.	Gallu cynhyrchu gohebiaeth fusnes, adroddiadau ffurfiol, negeseuon e-bost ac ati, gan ddefnyddio rhaglenni cymorth iaith yn achlysurol. Gallu gwneud nodiadau o ansawdd uchel mewn cyfarfodydd.	Gallu cynhyrchu gohebiaeth a nodiadau i safon uchel iawn gydag isafswm o ddefnydd rhaglenni cymorth iaith; gallu gwneud nodiadau llawn a manwl mewn cyfarfod gyda mynegiant cywir. Gallu cyfieithu'n gywir gan ddefnyddio arddull a thôn priodol.

Detholiad o Fanyleb Person yn y Pecyn Cais am Swydd

(Tair swydd union yr un fath - hysbysebwyd Ionawr 2020)

Sgiliau iaith Gymraeg	Lefel 3 neu'n uwch yn nhabl sgiliau Cymraeg y Tribiwnlys (gweler yr atodiad)	Dymunol	Yn y cyfweiliad
	(Lle mae gan yr ymgeisydd hyfedredd lefel isel yn y Gymraeg (lefelau 1 neu 2 yn nhabl sgiliau iaith y Tribiwnlys - [gweler ynghlwm]): Ymrwymiad i wella	Hanfodol	Yn y cyfweiliad
	(Lle nad oes gan yr ymgeisydd DIM hyfedredd yn yr iaith Gymraeg): Ymrwymiad i ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg	Hanfodol	Yn y cyfweiliad